**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyflogaeth Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein drwy gyfrwng Microsoft Teams, ar ddydd Mercher, Medi 4ydd, 2024 am 7.20 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorwyr:** | C. R. Thomas | Mrs A. E. Evans | A. W. Jones |
| | R. A. Davies | J. W. Tandy | D. Hopkins |
| **Yn mynychu arlein:** | D. Thomas | K. D. L. Davies | |

**505.**

**Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

**506.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

**507.**

**Cyflwyniad gan Paul Egan o Un Llais Cymru ynghylch gwerthuso Swyddi'r Stafff.**

Roedd y Clerc wedi cyflwyno Paul Egan o Un Llais Cymru a oedd wedi rhoi cyflwyniad manwl ynghylch y broses o Werthuso Swyddi'r Staff a gynhaliwyd gyda'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol, a gan ymgynghori gyda'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd J. W. Tandy.

Roedd y Cynghorydd A. Jones o'r farn nad oedd y broses a weithredwyd wedi ateb y manyleb wreiddiol, a'r hyn a fyddai ef wedi hoffi ei weld oedd dadansoddiad o'r dyraniad amser a roddir i amrywiol gweddau'r swyddi, fel bod modd ystyried rhesymoliad ac, er engraifft, a oedd y cyngor yn cynnal gormod o gyfarfodydd, ac a oedd modd trefnu'r rhain mewn ffordd wahanol?

Serch hynny, roedd y Cynghorydd A. Jones yn cytuno nad oedd yn anfodlon gyda'r Gwerthusiad Swyddi Staff neu ei ganlyniadau, ond am ofyn am ffordd ymlaen wahanol a fyddai'n edrych ar y dyraniad amser. Roedd y Clerc wedi holi Paul Egan p'un ai y byddai Un Llais Cymru yn gallu gwneud hyn, a faint byddai'r gost. Roedd Mr Egan wedi cadarnhau bod modd gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio fformiwla a phroses a gymeradwywyd yn genedlaethol, byddai'n costu tua £460 a bod modd ei gwblhau o fewn tair neu pedair wythnos.

Gofynnodd y Clerc i'r Cadeirydd am gynigydd i'r cynnig hwn pe byddai'r gwaith yma'n cael ei wneud. Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. W. Jones, ac roedd yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd J. W. Tandy, yn cytuno ei fod yn hapus gyda'r cynnig

Cadeirydd

gwerthuso gwaith ac amser, ac roedd y Cynghorydd C. R. Thomas wedi eilio'r cynnig.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn derbyn dyfynbris ffurfiol o Un Llais Cymru, a'i fod yn rhannu'r ymateb gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, a gofyn iddynt gymeradwyo bod y gwaith yn cael ei wneud ac yna ei gyflwyno gerbron cyfarfod arall o'r Pwyllgor Cyflogaeth.

**508.**

**Trafodaeth ynghylch y Cynllun Pensiwn Staff.**

Cafwyd trosolwg gan y Clerc o'r cynlluniau pensiwn a oedd i'w trafod, sef Cynllun Pensiwn Dyfed a Chynllun Pensiwn NEST.

Nid oedd y Cynghorydd A. Jones yn teimlo ei fod yn gallu cefnogi'r cyfraniad uchel o 26.2% at Gynllun Pensiwn Dyfed; nid oedd yn credu bod hyn yn cynnig gwerth am arian ac nac oedd yn deall paham taw dyma oedd hoff ddewis yr aelodau staff. Roedd cyfradd ymyrraeth y cynllun NEST, sef 5% o gyfraniad gan y staff a 3% o gyfraniad gan y cyflogwr yn cael ei weld yn dderbyniol gan awdurdodau eraill.

Bu trafodaeth rhwng yr aelodau a'r Clerc, ac roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod yn gwybod bod rhai Cynghorau'n rhan o Gynllun Pensiwn Dyfed, a rhai yn aelodau o'r cynllun NEST. Roedd hefyd wedi cadarnhau ei fod ond yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch y ddau gynllun, yn unol â'r cais a wnaethpwyd yn y Cyfarfod Cyffredin ym mis Gorffennaf.

Gofynnodd y Cynghorydd C. R. Thomas os oedd modd ystyried yr hyn roedd y staff am gael; roedd y Clerc wedi cadarnhau taw Cynllun Pensiwn Dyfed oedd eu hoff ddewis, ond roedd wedi ymgynghori gyda'r Swyddog Gweinyddol ac roedd y ddau wedi cytuno y byddant yn derbyn penderfyniad y pwyllgor, gan gynnwys sefyllfa lle y byddai'r penderfyniad yn anelu at y Cynllun NEST.

Roedd yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd J. W. Tandy, wedi ymyrryd ac wedi cynnig bod y Cyngor yn cytuno ar y Cynllun NEST ar gyfradd o 8%, a chytuno bod y Cyngor yn cyfrannu 4% i fatsio cyfraniad 4% y staff, yn hytrach na chyfraniad o 3% gan y cyflogwr a 5% gan y staff.

Roedd y Cynghorydd A. Jones wedi gofyn bod y Cynghorydd J. W. Tandy yn egluro ei resymu; eglurodd y Cynghorydd J. W. Tandy bod gwneud hyn yn gyfle i ddangos bod y staff yn cael eu gwerthfawrogi a gallai'r polisi hwn arwain at gadw staff a pharhad ar gyfer y gymuned, ac arwain at mwy o effeithlonrwydd. Cafodd cynnig y Cynghorydd J. W. Tandy ei eilio gan y Cynghorydd C. R. Thomas a'r Cynghorydd C. Davies.

Cytunwyd bod **argymhelliad** i fabwysiadu'r Cynllun NEST, gyda chyfraniad o 4% gan y staff a chyfraniad o 4% gan y cyflogwr, yn cael ei osod gerbron i'w **ddilysu** gan y Cyngor Llawn.

Cadeirydd

**509.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.55 yh.

Cadeirydd